CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2001 Rhif 3901 (Cy.319)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Cymwysterau Allanol) (Disgrifiad o Brofion) (Cymru) 2001

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

O dan adran 24(2)(gg) o Ddeddf Addysg 1997 (fel y'i cymhwysir at Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru gan Orchymyn Addysg (Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru) (Rhoi Swyddogaeth) 2001) mae gan Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru ("ACCAC") y swyddogaeth o wneud trefniadau ar gyfer datblygu, gosod neu roi profion sydd i'w sefyll neu dasgau sydd i'w gwneud gyda golwg ar ennill cymwysterau allanol ac sy'n dod o fewn disgrifiad a bennir mewn rheoliadau.

Mae'r Rheoliadau hyn yn disgrifio'r profion a'r tasgau y caiff ACCAC eu datblygu, eu gosod neu eu rhoi.

Mae'r rhain yn brofion a thasgau, drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, a fydd yn rhan o'r asesiad o gymhwysedd ym medrau sylfaenol llythrennedd a rhifedd ac ym medrau allweddol cyfathrebu, cymhwyso rhif a thechnoleg gwybodaeth.

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2001 No. 3901 (W.319)

# EDUCATION, WALES

## The Education (External Qualifications) (Description of Tests) (Wales) Regulations 2001

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

Under section 24(2)(gg) of the Education Act 1997 (as applied to the Qualifications, Curriculum and Assessment Authority for Wales by the Education (Qualifications, Curriculum and Assessment Authority for Wales) (Conferment of Function) Order 2001) the Qualifications, Curriculum and Assessment Authority for Wales ("ACCAC") has the function of making arrangements for the development, setting or administration of tests or tasks which fall to be undertaken with a view to obtaining external qualifications and which fall within a description specified in regulations.

These Regulations describe the tests and tasks which ACCAC may develop, set or administer.

These are tests and tasks, through English and Welsh mediums, that will form part of the assessment of competence in the basic skills of literacy and numeracy and in the key skills of communication, application of number and information technology.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2001 Rhif 3901 (Cy.319)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Cymwysterau Allanol) (Disgrifiad o Brofion) (Cymru) 2001

*Wedi'u gwneud* — *4 Rhagfyr 2001*

*Yn dod i rym* — *31 Rhagfyr 2001*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 24(2) (gg) a 54 (3) a (4) o Ddeddf Addysg 1997(**a**) ac sydd wedi'u breinio bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**b**).

**Enwi a chychwyn**

**1**. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Cymwysterau Allanol) (Disgrifiad o Brofion) (Cymru) 2001 a deuant i rym ar 31 Rhagfyr 2001.

**Dehongli**

**2**. Yn y Rheoliadau hyn -

ystyr "ACCAC" ("*ACCAC*") yw Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru(**c**); ac

ystyr "Deddf 1997" ("*the 1997 Act*") yw Deddf Addysg 1997.

(a) 1997 p.44. Mewnosodwyd paragraff newydd (gg) sy'n estyn pwerau'r Awdurdod Cymwysterau a Chwricwlwm yn is-adran (2) o adran 24 o'r Ddeddf honno gan is-adran (2) o adran 103 o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000 (p.21) ("Deddf 2000"). Diwygiwyd adran 30(2) o Ddeddf 1997 gan adran 103(3) o Ddeddf 2000 i gynnwys cyfeiriad at yr adran 24(2)(gg) newydd yn Neddf 1997, gan ymestyn drwy hynny bwerau'r Ysgrifennydd Gwladol i roi swyddogaethau'r Awdurdod Cymwysterau a Chwricwlwm i Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru. Gweler hefyd Orchymyn Addysg (Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru) (Rhoi Swyddogaeth) 2001 (O.S. 3907/320) sy'n rhoi i ACCAC y swyddogaeth a gynhwysir yn adran 24(2)(gg). I gael ystyr "prescribed" yn adran 24(2)(gg) gweler adran 56(1).

(b) Gweler Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac adran 150 o Ddeddf 2000.

(c) Sefydlwyd Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru gan adran 14(1)(b) o Ddeddf Diwygio Addysg 1988 (p.40), parhaodd mewn bodolaeth yn rhinwedd adran 360 o Ddeddf Addysg 1996 (p.56) a rhoddwyd ei enw cyfredol iddo gan adran 27(1) o Ddeddf Addysg 1997.

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2001 No. 3901 (W.319)

# EDUCATION, WALES

## The Education (External Qualifications) (Description of Tests) (Wales) Regulations 2001

*Made* — *4th December 2001*

*Coming into force* — *31st December 2001*

The National Assembly for Wales makes the following Regulations in exercise of the powers conferred by sections 24(2) (gg) and 54 (3) and (4) of the Education Act 1997(**a**) and now vested in the National Assembly for Wales(**b**).

**Citation and commencement**

**1**. These Regulations are called the Education (External Qualifications) (Description of Tests) (Wales) Regulations 2001 and shall come into force on 31st December 2001.

**Interpretation**

**2**. In these Regulations -

"the 1997 Act" ("*Deddf 1997*") means the Education Act 1997; and

"ACCAC" ("*ACCAC*") means the Qualifications, Curriculum and Assessment Authority for Wales(**c**).

(a) 1997 c.44. A new paragraph (gg) extending the powers of the Qualifications and Curriculum Authority is inserted in subsection (2) of section 24 of that Act by subsection (2) of section 103 of the Learning and Skills Act 2000 (c.21) ("the 2000 Act"). Section 30(2) of the 1997 Act is amended by section 103(3) of the 2000 Act to include reference to the new section 24(2)(gg) of the 1997 Act, thereby extending the powers of the Secretary of State to confer functions of the Qualifications and Curriculum Authority on the Qualifications, Curriculum and Assessment Authority for Wales. See also the Education (Qualifications, Curriculum and Assessment Authority for Wales) (Conferment of Function) Order 2001 (S.I. 3907/320) which confers on ACCAC the function contained in section 24(2)(gg). For the meaning of "prescribed" in section 24(2)(gg) see section 56(1).

(b) See the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672) and section 150 of the 2000 Act.

(c) The Qualifications, Curriculum and Assessment Authority for Wales was established by section 14(1)(b) of the Education Reform Act 1988 (c.40), continued in existence by section 360 of the Education Act 1996 (c.56) and given its current name by section 27(1) of the Education Act 1997.

**Disgrifiad o brofion a thasgau**

**3.** Mae'r profion a'r tasgau y caiff ACCAC eu datblygu, eu gosod neu eu rhoi yn brofion a thasgau drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, a fydd yn rhan o'r asesiad o gymhwysedd y rhai y mae'r profion neu'r tasgau yn cael eu rhoi iddynt yn y canlynol -

(a) medrau sylfaenol llythrennedd a rhifedd; a

(b) medrau allweddol cyfathrebu, cymhwyso rhif a thechnoleg gwybodaeth.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**a**)

4 Rhagfyr 2001

Dirprwy Lywydd y Cynulliad

(a) 1998 p.38.

**Description of tests and tasks**

**3**. The tests and tasks which ACCAC may develop, set or administer are tests and tasks in English and Welsh mediums, that will form part of the assessment of competence in -

(a) basic literacy and numeracy skills; and

(b) communication, application of number and information technology key skills,

of those to whom the tests or tasks are administered.

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**a**)

4th December 2001

*John Marek*

The Deputy Presiding Officer of the Assembly

(a) 1998 c.38

OFFERYNNAU STATUDOL

## 2001 Rhif 3901 (Cy.319)

## ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Cymwysterau Allanol) (Disgrifiad o Brofion) (Cymru) 2001

STATUTORY INSTRUMENTS

## 2001 No. 3901 (W.319)

## EDUCATION, WALES

The Education (External Qualifications) (Description of Tests) (Wales) Regulations 2001

©ⓗ Hawlfraint y Goron 2001

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2001

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090390-0

9 780110 903903

**£1.75**

W396/12/01 ON